RICHARDS
MOOREHEAD & LAING LTD

PLANNING | LANDSCAPE | ENVIRONMENT

**SAFLE RHEOLI FFINIAU GOGLEDD CYMRU**
**PLOT 9 PARC CYBI**

**Arfarniad Tirwedd a Gweledol**

**ar gyfer**

**LLYWODRAETH CYMRU**

**Gorffennaf 2021**

**BCP21-002-04-00**

RML

# RICHARDS
## MOOREHEAD & LAING LTD

PLANNING | LANDSCAPE | ENVIRONMENT

**SAFLE RHEOLI FFINIAU GOGLEDD CYMRU**
**PLOT 9 PARC CYBI**

**Arfarniad Tirwedd a Gweledol**

**ar gyfer**

**LLYWODRAETH CYMRU**

**Gorffennaf 2021**

**BCP21-002-04-00**

© Hawlfraint Mae'r adroddiad hwn a'r ffigurau yn parhau'n hawlfraint Richards, Moorehead & Laing Ltd

GWEITHDREFNAU SICRHAU ANSAWDD: QP4, QP7.3Doc6

| | | | |
|---|---|---|---|
| Paratowyd gan: | Jon Stoddard | Dyddiad: | 14/05/2021 |
| Gwiriwyd gan: | Rhodri Edwards | Dyddiad: | 14/05/2021 |
| Cymeradwywyd gan: | Jon Stoddard | Dyddiad: | 30/07/2021 |

**COFNOD CYHOEDDI**

| Diwyg: | Dyddiad: | Disgrifiad: | Paratowyd gan | Gwiriwyd gan: |
|---|---|---|---|---|
| F4 | 24/06/2021 | Arfarniad Tirwedd a Gweledol | J. Stoddard | R. Edwards |
| F5 | 25/06/2021 | Arfarniad Tirwedd a Gweledol | J. Stoddard | R. Edwards |
| F6 | 23/07/2021 | Arfarniad Tirwedd a Gweledol | J. Stoddard | R. Edwards |
| F7 | 30/07/2021 | Arfarniad Tirwedd a Gweledol | J. Stoddard | R. Edwards |

RML
Office 1 Llys Clwyd, Cwrt Y Dderwen, Ruthin LL15 1NJ
email: rml@rmlconsult.com web: www.rmlconsult.com
Tel +44(0)1824 704366
Registered in England No. 1848683 VAT Reg. No. 401 4243 13
CIEEM REGISTERED PRACTICE 2020-2021
nqa ISO 9001 QUALITY MANAGEMENT UKAS MANAGEMENT SYSTEMS 015
Landscape Institute Registered Practice

## CYNNWYS

1 CYFLWYNIAD ..... 1
1.1 Arfarniad Tirwedd a Gweledol (LVA) ..... 1
1.2 Lleoliad y Safle (Cyfeirier at Atodiad A – Ffigur 1: Cynllun Lleoliad y Safle) ..... 2
1.3 Ardal yr Astudiaeth (Cyfeirier at Atodiad A – Ffigur 2: Ardal yr Astudiaeth) ..... 3
1.4 Disgrifiad o'r Safle ..... 3
2 POLISI CYNLLUNIO ..... 4
2.1 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2011-2026) ..... 4
2.2 Polisïau'r Cynllun Datblygu Statudol – Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (JLDP), mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017 ..... 4
3 METHODOLEG YR ARFARNIAD TIRWEDD A GWELEDOL (LVA) ..... 5
4 GWAELODLIN TIRWEDD A GWELEDOL ..... 6
4.1 Gwaelodlin Tirwedd ..... 6
4.2 Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ..... 6
4.3 LANDMAP ..... 7
4.4 Dynodiadau Tirwedd (Cyfeirier at Atodiad A – Ffigur 3 Dynodiadau Tirwedd) ..... 10
4.5 Gwaelodlin Gweledol ..... 17
5 Y DATBLYGIAD ARFAETHEDIG ..... 20
5.1 Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig ..... 20
5.2 Mesurau Lliniaru Tirwedd ..... 20
6 ARFARNIAD TIRWEDD A GWELEDOL ..... 22
6.1 Yn Gyffredinol ..... 22
6.2 Arfarniad Tirwedd ..... 22
6.3 Arfarniad Gweledol ..... 23
7 CRYNODEB A CHASGLIADAU ..... 25

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 Arfarniad Tirwedd a Gweledol (LVA)

1.1.1 Arfarniad Tirwedd a Gweledol (LVA) yw'r ddogfen hon ac mae'n disgrifio effeithiau tirwedd a gweledol disgwyliedig a thebygol Safle Rheoli Ffiniau (BCP) arfaethedig ar dir ar Blot 9 ar Ystad Ddiwydiannol Parc Cybi, Caergybi, Ynys Môn. (Cyfeirier at Atodiad A – Ffigur 1: Cynllun Lleoliad y Safle).

1.1.2 Cynhaliwyd yr Arfarniad Tirwedd a Gweledol (LVA) gan Aelod Siartredig o'r Sefydliad Tirwedd yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Asesu'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (Trydydd Argraffiad 2013) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Tirwedd a'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol[1].

1.1.3 Diffinnir yr Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) yn y Canllawiau ar gyfer Asesu'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol[2] (GLVIA3) fel;

*"offeryn a ddefnyddir i nodi ac asesu arwyddocâd ac effeithiau newid sy'n deillio o ddatblygiad ar y dirwedd fel adnodd amgylcheddol ynddo'i hun ac ar olygfeydd ac amwynder gweledol pobl".*

1.1.4 Mae'r canllawiau GLVIA yn cyfeirio hefyd at y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd (ELC) a'i ddiffiniad o dirwedd fel *"Mae tirwedd yn ardal, fel y'i gwelir gan bobl, y mae ei chymeriad yn ganlyniad gweithio a rhyngweithio rhwng ffactorau naturiol a/neu ddynol"*[3].

1.1.5 Gellir cynnal LVIA yn ffurfiol fel rhan o Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol (AEA) neu'n anffurfiol, fel cyfraniad at yr arfarniad o gynigion datblygu a cheisiadau cynllunio. Gellir defnyddio egwyddorion a phrosesau LVIA i gynorthwyo ag arfarnu datblygiad a newidiadau mewn defnydd tir sydd y tu hwnt i ofynion y Gyfarwyddeb a Rheoliadau AEA, gan helpu i ddatblygu dyluniad datblygiadau arfaethedig a allai achosi newid i dirwedd ac amwynder gweledol safle neu ardal benodol. Cyfeirir at hyn fel Arfarniad Tirwedd a Gweledol (LVA) ac fe'i defnyddir i asesu effeithiau arwyddocaol tebygol[4] y datblygiad. Gellir defnyddio'r ymagwedd hon lle mae angen arfarniad 'annibynnol' a lle nad yw pynciau amgylcheddol eraill yn angenrheidiol fel rhan o broses asesu ehangach (fel mewn AEA).

---


[1] "Guidelines for Landscape and Visual Impact Assessment" – Trydydd Argraffiad gan y Sefydliad Tirwedd a'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (GLVIA3)
[2] Para 1.1 GLVIA3
[3] Para 2.2 GLVIA3
[4] 4ydd pwynt bwled – tudalen 12 GLVIA3

## 1.2 Lleoliad y Safle (Cyfeirier at Atodiad A – Ffigur 1: Cynllun Lleoliad y Safle)

1.2.1 Mae'r safle wedi'i leoli ar Ystad Ddiwydiannol Parc Cybi, sef safle cyflogaeth strategol ar gyrion tref a phorthladd Caergybi, Ynys Môn. Mae'r safle, ac yn wir Ystad Ddiwydiannol gyfan Parc Cybi, o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn. Mae Parc Cybi yn borth allweddol ac yn safle strategol ar gyfer yr holl gerbydau sy'n teithio i ac o borthladd Caergybi o dir mawr y DU ar hyd yr A55. Mae'r A55 yn ffurfio rhan o Rwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) Euroroute E22 sy'n rhedeg o Ishim yn Rwsia i Ddulyn yn Iwerddon, ac mae'n darparu cysylltiad hollbwysig i Borthladd Caergybi.

1.2.2 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (JLDP) 2011-2026 ar31 Gorffennaf 2017, a dynodwyd Parc Cybi yn brif Safle Rhanbarthol Strategol o ryw 109.2ha, y daethpwyd â 53ha ohono ymlaen fel Ystad Ddiwydiannol Parc Cybi ar gyfer defnyddiau tir a ddosberthir fel B1, B2 a B8. O dan Bolisi CYF 1, mae tir fel hwnnw ym Mharc Cybi wedi'i ddiogelu ar gyfer cyflogaeth a mentrau busnes.

1.2.3 Mae'r Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig wedi'i leoli'n gyfan gwbl o fewn Plot 9 ar Ystad Ddiwydiannol Parc Cybi. Roedd Plot 9 ym Mharc Cybi yn ffurfio rhan o ganiatâd cynllunio blaenorol (cyf 19C842A/EIA) ar gyfer cynllun defnydd cymysg a gymeradwywyd ar 7 Mawrth 2005. Mae Plot 9 wedi derbyn caniatâd cynllunio amlinellol yn flaenorol ar gyfer un depo storio/dosbarthu mawr hyd at 15m o uchder wedi'i osod ar lwyfandir datblygu o 6.4ha, gyda mynedfa gysylltiedig oddi ar y brif ffordd gyswllt, ardaloedd gwasanaethu a chyfleusterau parcio ceir.



**Ffigur 1**: **Cafodd Plot 9 ganiatâd cynllunio'n flaenorol (cyf 19C842A/EIA) ar gyfer Busnes/Diwydiant Cyffredinol, a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2005 fel rhan o Ystad Ddiwydiannol ehangach Parc Cybi.**

## 1.3 Ardal yr Astudiaeth (Cyfeirier at Atodiad A – Ffigur 2: Ardal yr Astudiaeth)

1.3.1 Sefydlwyd ardal yr astudiaeth ar ddechrau'r arfarniad ac mae'n ymestyn ymhellach na therfynau ffisegol y datblygiad arfaethedig ond yn gyfyngedig i hynny sy'n angenrheidiol i asesu arwyddocâd posibl effeithiau'r datblygiad arfaethedig. Mae ardal yr astudiaeth, felly, yn ymestyn ymhellach na'r ardal sydd ei hangen i bennu'r effeithiau ar y dirwedd, i gwmpasu'r ardal a'r derbynyddion sy'n debygol o ddioddef effeithiau gweledol. Sefydlwyd ardal astudiaeth â radiws o 5 cilometr o ganol y safle fel pellter addas ar gyfer asesu effeithiau arwyddocaol posibl ar y dirwedd ac effeithiau gweledol. Hefyd, sefydlwyd byffer 1 cilometr er mwyn adnabod unrhyw effeithiau lleol neu arwyddocaol ychwanegol.

## 1.4 Disgrifiad o'r Safle

1.4.1 Mae'r safle, y cyfeirir ato hefyd fel Plot 9, yn gorwedd ym mhen deheuol Parc Cybi; mae'n safle parth cyflogaeth a menter dynodedig sydd wedi cael caniatâd cynllunio amlinellol yn flaenorol (2005) ar gyfer ystod o waith datblygu, ac mae eisoes wedi'i ddatblygu'n rhannol. Ceir mynediad i Barc Cybi drwy seilwaith newydd a agorodd ym mis Hydref 2008, gan gynnwys ffordd gyswllt fewnol (oddeutu 900 metr o hyd) a llwybr beicio sy'n rhedeg ar hyd hen ffordd Lôn Trefignath. Mae'r ffordd gyswllt yn dod i ben wrth gylchfan lle mae Lôn Trefignath yn parhau i'r de ddwyrain tuag at Lôn Towyn Capel a chyrion dwyreiniol Trearddur.

1.4.2 Mae Plot 9 yn hen safle maes glas ar ymyl de orllewinol Parc Cybi ar ddiwedd y ffordd gyswllt, a cheir mynediad iddo oddi ar gylchfan dwy fraich. Mae rhan o'r safle wedi'i datblygu'n flaenorol (Chwefror 2021) fel cyfleuster stacio dros dro ar gyfer Cerbydau Nwyddau Trwm, ac mae archwiliadau archaeolegol wedi tarfu ar weddill ardal y plot. Mae'r ardal hon wedi'i hadfer ar ôl hynny ac wedi'u hau â glaswellt.

1.4.3 Ceir mynediad i'r safle ar hyd ffordd gangen fer i'r de orllewin oddi ar y gylchfan. I'r gogledd o'r safle, mae'r tir yn codi fymryn gyda brigiadau caregog yn ffurfio tarren linellol ar hyd ffin ogledd orllewinol y safle. Mae ffordd gyswllt a chylchfan Parc Cybi i'r dwyrain o'r safle, a thu hwnt i hynny mae Siambr Gladdu Trefignath sydd wedi'i sgrinio gan goetir planhigfa i raddau helaeth. I'r de o'r safle ceir lagŵn gwanhau bach gyda phlanhigfa coetir llydanddail ar hyd y ffin ddeheuol, ac mae tir pori garw y tu hwnt. I'r gorllewin a'r de orllewin, mae'r tir yn codi tuag at ardal breswyl Bae Trearddur.

## 2 POLISI CYNLLUNIO

### 2.1 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2011-2026)

2.1.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2011-2016) ar 31 Gorffennaf 2017. Mae'r CDLl yn strategaeth datblygu defnydd tir am gyfnod o 15 mlynedd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy. Mae'n amcanu at gyflawni'r canlynol:

- Arwain datblygiadau tai, manwerthu, cyflogaeth a defnyddiau eraill;
- Cynnwys polisïau a fydd yn cynorthwyo penderfyniadau'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar geisiadau cynllunio;
- Gwarchod ardaloedd i sicrhau cynnal a chyfoethogi'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig.

### 2.2 Polisïau'r Cynllun Datblygu Statudol - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (JLDP), mabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017

2.2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) ac Adran 70(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (1990) yn mynnu bod ceisiadau am ganiatâd cynllunio yn cael eu penderfynu'n unol â'r cynllun datblygu statudol, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall.

2.2.2 Ystyrir bod y polisïau canlynol o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn yn berthnasol i'r ystyriaeth o'r datblygiad arfaethedig, o ran ystyried agweddau'n ymwneud yn benodol â materion tirwedd a materion gweledol:

- **Polisi Strategol PS 5** - Datblygu Cynaliadwy
- **Polisi Strategol PS 19** - Gwarchod a Lle Bo'n Berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol;
- **Polisi AMG 1** - Cynlluniau Rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol;
- **Polisi AMG 3** - Gwarchod a Gwella Nodweddion a Rhinweddau sydd yn Nodedig i Gymeriad y Dirwedd Leol;
- **Polisi PCYFF 4** – Dylunio a Thirweddu

2.2.3 Rhoddir ystyriaeth ddyladwy i'r polisïau hyn wrth ddatblygu cynigion dylunio ar gyfer y datblygiad.

# 3 METHODOLEG YR ARFARNIAD TIRWEDD A GWELEDOL (LVA)

## 3.1 Cyflwyniad i fethodoleg yr LVA


3.1.1 Ymgymerwyd â'r LVA hwn gan gyfeirio at y 'Canllawiau ar gyfer Asesu'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (Trydydd Argraffiad 2013)' (GLVIA3) gan y Sefydliad Tirwedd a'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol.

3.1.2 Ffocws yr LVA hwn yw adnabod a rhagweld y prif effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol y gallai'r datblygiad eu cael, neu beidio eu cael, ar asedau'r dirwedd a nodweddion y safle a'r ardal amgylchynol, gan gynnwys yr AHNE a'i lleoliad. Hefyd, mae'r arfarniad yn ceisio canfod p'un a yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o arwain at effeithiau arwyddocaol ar y dirwedd ac yn weledol.

3.1.3 Dywed GLVIA3 (para 6.2) y dylai'r ymagwedd at asesu/arfarnu, ym mhob achos, fod yn *'gymesur i raddfa a natur y datblygiad arfaethedig'*. Ystyrir bod arfarniad tirwedd a gweledol yn gymesur i'r datblygiad ac eir ati i ystyried effeithiau amgylcheddol arwyddocaol gan ddefnyddio barn broffesiynol, yn hytrach na defnyddio meini prawf arwyddocâd rhagnodol fel y defnyddir yn y broses AEA fwy ffurfiol.

3.1.4 Mae asesiad o'r amodau gwaelodlin presennol yn rhoi cofnod ar adeg mewn amser, y gellir asesu effeithiau posibl ar y dirwedd ac effeithiau gweledol yn ei erbyn. Mae arfarniadau tirwedd a gweledol yn mynd i'r afael â dau bwnc ar wahân ond sy'n gysylltiedig, a dylid gwahaniaethu rhyngddynt yn glir:

- **Asesiad o'r Effeithiau ar Dirwedd**: asesu effeithiau ar y dirwedd fel adnodd yn ei rhinwedd ei hun; ac
- **Asesiad o'r Effeithiau Gweledol**: asesu effeithiau gweledol ar olygfeydd penodol ac ar yr amwynder gweledol cyffredinol pobl;




3.1.5 Diffinnir effeithiau ar y dirwedd gan y GLVIA 3, paragraffau 5.1 a 5.2, fel a ganlyn:

*'Mae asesiad o'r effeithiau ar y dirwedd yn delio ag effeithiau newid a datblygu ar dirwedd fel adnodd. Y pryder yma yw sut fydd y cynnig yn effeithio ar yr elfennau sy'n ffurfio'r dirwedd, yr agweddau esthetig a chanfyddiadol ar y dirwedd a'i chymeriad nodedig. ...*

*Dylai ardal y dirwedd y dylid ei chwmpasu wrth asesu effeithiau ar y dirwedd gynnwys y safle ei hun a'r holl dirwedd ehangach o'i hamgylch y gallai'r datblygiad arfaethedig ddylanwadu arnynt mewn modd arwyddocaol'.*

# 4 GWAELODLIN TIRWEDD A GWELEDOL

## 4.1 Gwaelodlin Tirwedd

4.1. 1 Y broses gychwynnol wrth ymgymryd â'r asesiad o effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol yw pennu amodau gwaelodlin y dirwedd. Mae'r wybodaeth hon ar ôl ei choladu yn ffurfio'r sail ar gyfer yr asesiad o effeithiau ar y dirwedd sy'n debygol o gael eu hachosi o ganlyniad i'r cynigion datblygu. Mae'r asesiad o'r gwaelodlin tirwedd yn ardal yr astudiaeth yn ystyried y canlynol:

- Adolygiad o Ardaloedd Cymeriad Cenedlaethol ac Awdurdod Lleol ac Asesiadau, gan gynnwys LANDMAP;
- Disgrifiad o elfennau'r dirwedd bresennol sy'n cyfrannu at gymeriad y dirwedd, gan gynnwys elfennau ffisegol y dirwedd fel nodweddion o waith dyn, topograffi, cyrsiau dŵr, llystyfiant presennol a phatrymau caeau;
- Pennu gwerth y dirwedd bresennol gan gynnwys cyfeiriadau at ddynodiadau statudol ac anstatudol, ansawdd y dirwedd, gwerth amwynder a hamdden;
- Nodi derbynyddion ar y dirwedd a allai gael eu heffeithio gan gynigion y cynllun.

## 4.2 Ardaloedd Cymeriad Tirwedd

*Ardal Cymeriad Tirwedd Genedlaethol NLCA 1: Arfordir Môn*

4.2.1 Mae 48 o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol (NLCA) a ddiffinnir ar raddfa tirwedd eang ledled Cymru. Mae'r proffiliau disgrifiadol ar gyfer pob ardal yn tanlinellu'r hyn sy'n gwahaniaethu rhwng y naill dirwedd a'r llall, gan gyfeirio at eu nodweddion naturiol, diwylliannol a chanfyddiadol penodol i ardal.

4.2.2 Mae safle'r datblygiad arfaethedig a'r ardal o amgylch o fewn NLCA1 Arfordir Môn sy'n cwmpasu'r morlin cyfan o amgylch Ynys Môn a phellter cyfyngedig i mewn i'r tir. Yn gyffredinol, mae'r ardal yn cyd-ddigwydd ag AHNE Ynys Môn/Anglesey. Mae'r NLCA yn nodedig am fathau amrywiol o greigiau a golygfeydd arfordirol, gyda chlogwyni arfordirol serth a phentiroedd creigiog dramatig, a baeau tywodlyd. Mae'n cydnabod y ceir dylanwadau o waith dyn o fewn yr NLCA gyda rhai tirnodau amlwg fel Castell Biwmares, Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa a hen waith Alwminiwm Môn yng Nghaergybi.

*Ardaloedd Cymeriad Tirwedd: Ardal Cymeriad Tirwedd Ynys Môn 2 (LCA2) – Ynys Gybi*

4.2.3 Mae Plot 9 a Pharc Cybi yn ehangach o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd 2[5] (LCA 2) sy'n cwmpasu'r mwyafrif o Ynys Gybi (ac eithrio Mynydd Twr sydd yn LCA 1), ac mae'n cynnwys tref a phorthladd Caergybi, y morlin i'r de orllewin o amgylch Trearddur a hen ffatri Alwminiwm Môn, a Pharc Arfordirol Penrhos. Mae'r disgrifiad o'r LCA yn awgrymu bod yn rhannu'n ddwy is-uned bendant, wedi'u gwahanu gan goridor datblygu Caergybi-Trearddur ar hyd yr B4545. Mae'r disgrifiad yn cydnabod Caergybi fel prif borthladd gyda gweithgareddau cysylltiedig, ond nid oes unrhyw gyfeiriad at Alwminiwm Môn na Pharc Cybi.

## 4.3 LANDMAP

4.3.1 Mae LANDMAP yn adnodd Cymru gyfan a weinyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n cofnodi ac yn gwerthuso nodweddion a phriodweddau tirwedd, a dylanwadau ar y dirwedd mewn setiau data cyson yn genedlaethol.

4.3.2 Mae'r safle o fewn dwy ardal setiau data Gweledol a Synhwyraidd fel y'u disgrifir yn LANDMAP, sef:

1. YNSMNVS084: Gwaith Alwminiwm; a
2. YNSMNVS007: Ynys Gybi YNSMNVS091.

4.3.3 Mae'r safle wedi'i leoli o fewn YNYSMNVS084: Gwaith Alwminiwm a gellir ystyried mai hwn sy'n fwyaf perthnasol i'r safle am ei fod hefyd yn cynnwys Parth Menter Parc Cybi. Mae'r disgrifiad o'r ardal agwedd yn cyfeirio at ddatblygiadau manwerthu/busnes mawr newydd yn y rhan orllewinol (Ystad Ddiwydiannol Penrhos/Parc Manwerthu Caergybi) ac ystâd fusnes/ddiwydiannol newydd sy'n cael ei datblygu ar ochr arall yr A55 (Parc Cybi). Mae'n cyfeirio at y Gwaith Alwminiwm fel nodwedd hyll ac ymwthgar a bod yr ardal yn dioddef llygredd sylweddol yn ystod y nos o oleuadau stryd a goleuadau simneiau. Ystyrir bod y gwerthusiad cyffredinol o'r ardal hon o werth isel.

4.3.4 Mae ardal agwedd YNSMNVS007: Ynys Gybi yn ardal fwy o lawer ac yn debyg o ran ei chwmpasiad i LCA2. Mae'r ardal yn uniongyrchol i'r de a'r gorllewin o Barc Cybi ac fe'i disgrifir fel "Tirwedd wledig, dawel heb ei difetha yn gyffredinol, gyda chymysgedd deniadol o fryncynnau garw, caeau corsiog a bach, a golygfeydd arfordirol". Mae'n nodi'r A55 ac Alwminiwm Môn fel difriwyr gweledol, ond mae'r ardal agwedd yn ymwneud mwy â thir sydd heb ei ddatblygu ac at briodweddau golygfaol a lleoliad arfordirol Penrhosfeilw i'r gogledd orllewin, a Bae Beddmanarch a'r Lasinwen i'r de ddwyrain. Ystyrir bod y gwerthusiad cyffredinol o'r ardal hon o werth uchel.

4.3.5 Mae'r safle yn agos hefyd at anheddiad Bae Trearddur, sydd o fewn ardal agwedd YNSMN-VS-064. Anheddiad arfordirol yn bennaf yw Trearddur, o amgylch morlin garw Bae Trearddur. Mae'r rhan fwyaf o'r ffurf adeiledig o rendr gwyn gyda thoeon llechi, gyda ffiniau waliau cerrig

[5] Strategaeth Tirwedd Ynys Môn - Diweddariad 2011

naturiol, er bod safle datblygu diolwg a rhywfaint o ddatblygiadau tai newydd sy'n anghydnaws o ran cymeriad. Mae rhai safleoedd sy'n disgwyl eu datblygu mewn cyflwr gwael.

### Tabl 4.1 Ardaloedd Agwedd LANDMAP[6]

| Ardal Agwedd LANDMAP | Cod Ardal | Enw | Disgrifiad/Nodweddion | Gwerth Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|
| Tirwedd a Gweledol (Cyfeirier at Ffigur 3) | YNSMN-VS-084 | Gwaith Alwminiwm (AA) | Ffatri fawr ac ystâd ddiwydiannol<br>Mae simnai uchel unigol Alwminiwm Môn yn dirnod amlwg<br>Ardaloedd mawr o goetir llydanddail - rhai planhigfeydd | **Isel**<br>Hyll ac ymwthgar ond yn dirnod nodedig |
| | YNSMN-VS-007 | Ynys Gybi | Gwerth golygfaol uchel gerllaw'r arfordir ond gyda difriwyr gweledol fel Alwminiwm Môn<br>Iseldir gyda phatrwm o wrymiau creigiog isel a gwaelodion corsiog | **Uchel**<br>Tirwedd wledig, dawel heb ei difetha yn gyffredinol |
| | YNSMN-VS-064 | Trearddur | Anheddiad gwasgaredig wedi'i leoli ar ran gulaf Caergybi yn cynnwys ystadau tai amrywiol, ardaloedd o ddatblygiadau byngalos, parciau carafanau a llety gwyliau gyda chaeau rhyngddynt | **Cymedrol**<br>Anheddiad mewn cyflwr cyffredinol dda - rhai datblygiadau anghymesur |
| Cynefinoedd Tirwedd (Cyfeirier at Ffigur 4) | YNSMN-VS-105 | Tir Fferm - Trearddur i Gaergybi | Gwerth isel - 88% o laswelltir wedi'i wella<br>Gwelyau cyrs fel Cynefin Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP) | **Isel**<br>Glaswelltir wedi'i wella i raddau helaeth nad yw'n gynefin ecolegol gwerthfawr |
| | YNSMN-LH-062 | Gorllewin o Gaergybi | Gwerth Cymedrol - SoDdGAau ac ardaloedd mawr (40%) o goetir llydanddail | **Cymedrol**<br>Dynodiadau ecolegol cyfyngedig ond yn AHNE bron yn gyfan gwbl |
| Tirwedd Hanesyddol (Cyfeirier at Ffigur 5) | YNSMN-HL-073 | Parc Penrhos | Mae meddiannaeth yr ardal yn dyddio'n ôl i'r cyfnod Neolithig<br>Bellach yn safle prosesu/gweithgynhyrchu a chyfathrebu | **Cymedrol**<br>Mae llawer o'r ardal wedi'i meddiannu gan ystâd ddiwydiannol anferth a blerdwf Caergybi |
| | YNSMN-HL-029 | Penrhos | Mae meddiannaeth yr ardal yn dyddio'n ôl i'r cyfnod Neolithig<br>Ailddiffiniwyd yr ardal yn 2017 | **Cymedrol**<br>Mae llawer o'r ardal wedi'i meddiannu gan ystâd ddiwydiannol anferth a blerdwf Caergybi |
| Tirwedd Ddaearegol (Cyfeirier at Ffigur 6) | YNSMN-GL-083 | Trearddur (Gogledd) | Iseldir, bryniau a dyffrynnoedd<br>Brigiadau wyneb caregog o greigwely metamorffig<br>Er ei bod gerllaw SoDdGA daearegol mewn datguddiadau arfordirol (YNSMNGL115), nid oes unrhyw nodweddion ychwanegol wedi'u hamlygu yn yr ardal fel rhai o arwyddocâd arbennig. | **Cymedrol**<br>Gerllaw SoDdGA daearegol |
| Tirwedd Ddiwylliannol (Cyfeirier at Ffigur 7) | YNSMN-CLS-100 | Gwaith Alwminiwm | Llygredd sylweddol yn y nos<br>Ymdeimlad cryf o le - ansawdd golygfaol isel | Dim cofnod |
| | YNSMN-CLS-008 | Ynys Gybi | Ychydig o lygredd yn y nos<br>Rhinweddau tawel ac ysbrydol | Dim cofnod |
| | YNSMN-CLS-079 | Trearddur | Ychydig o lygredd yn y nos ond y tu allan i'r Warchodfa Awyr Dywyll | Dim cofnod |

[6] https://naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/wales-environmental-information

## 4.4 Dynodiadau Tirwedd (Cyfeirier at Atodiad A – Ffigur 3 Dynodiadau Tirwedd)

4.4.1 Ceir un dynodiad tirwedd sylfaenol, sef AHNE Ynys Môn, o fewn 1 cilometr i ardal yr astudiaeth, ynghyd â thair Heneb Gofrestredig. Disgrifir y rhain yn fanylach yn y paragraffau dilynol. Y tu hwnt i'r ardal astudiaeth 1 cilometr, ac o fewn y parth clustogi 5 cilometr, ceir ardaloedd o arfordir treftadaeth, coetir hynafol, ardaloedd mynediad agored a gofod agored gwarchodedig, ond mae'r rhain yn ddigon pell i ffwrdd i beidio â chael eu heffeithio'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol gan y cynigion datblygu. Hefyd, ceir nifer o Henebion Cofrestredig o fewn ardal ehangach Caergybi tuag at Penrhos Feilw ac Ynys Lawd sydd mor bell i ffwrdd fel na fydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio arnynt.

*Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn*

4.4.2 Cafodd Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) eu sefydlu o ganlyniad i Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad (1949). Mae AHNE Ynys Môn yn ddynodiad arfordirol yn bennaf, sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o forlin Ynys Môn; fe'i dynodwyd ym 1966 a'i gadarnhau ym 1967. Cafodd ei ddynodi er mwyn gwarchod apêl ac amrywiaeth esthetig tirwedd a chynefinoedd arfordirol yr ynys rhag datblygu amhriodol.

> *"Mae'n ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i ystyried dibenion Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), sef cadwraeth a gwella eu prydferthwch naturiol"*[7].

4.4.3 Prif amcan dynodi AHNE yw gwarchod a gwella harddwch naturiol y dirwedd. Mae'n hanfodol fod unrhyw gynllun i ddatblygu a fyddai'n effeithio ar yr AHNE neu'i leoliad yn ffafrio diogelu harddwch naturiol ardal. Fe fyddai'n rhaid i gynigion ar gyfer datblygiadau mawr fodloni tri phrawf, sef:

1. yr angen am y datblygiad, yn nhermau ystyriaethau cenedlaethol, ac effaith ei ganiatáu neu ei wrthod ar yr economi leol; -
2. y gost a'r posibilrwydd o ddarparu'r datblygiad y tu allan i'r ardal a ddynodwyd neu ddiwallu'r angen amdano mewn rhyw ffordd arall; -
3. unrhyw effaith andwyol ar yr amgylchedd a'r dirwedd, ac i ba raddau y gellid lliniaru hynny[8].

*Polisi AMG1 – Cynlluniau Rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol*

4.4.4 Mae'r polisi yn datgan: -

> *"Mae'n rhaid, ble'n briodol, i gynigion sydd o fewn neu sy'n effeithio ar osodiad a/neu olygfeydd arwyddocaol i mewn neu allan o'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, roi ystyriaeth i'r Cynllun Rheolaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol perthnasol."*

[7] JLDP Gwynedd a Môn – para 6.5.1 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol
[8] JLDP Gwynedd a Môn – Tabl 23: Atodlen dynodiadau cadwraeth natur - Rhwymedigaethau

4.4.5 Mae eglurhad o'r Polisi yn datgan;

> *"Bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod amcanion a nodau'r Cynlluniau Rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cael eu hystyried yn llawn wrth ystyried cynigon i ddatblygu. Bydd y Cynllun Rheoli yn darparu disgrifiad eglur a chytunedig o'r agweddau sy'n rhan o'r cymeriad, ymddangosiad a gwerth hanesyddol arbennig sy'n cyfrannu i'w prydferthwch naturiol. Bydd y Cynlluniau yn cario pwysau sylweddol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio*."[9]

4.4.6 Derbyniwyd yr egwyddor ddatblygu ym Mharc Cybi drwy gymeradwyo cais cynllunio 19C842A/EIA yn 2005. Mae Plot 9 wedi'i glustnodi'n flaenorol ar gyfer un depo storio/dosbarthu mawr ar lwyfandir datblygu o 6.44ha, gyda mynedfa gysylltiedig oddi ar y brif ffordd gyswllt, ardaloedd gwasanaethu a chyfleusterau parcio ceir.

4.4.7 Roedd yr uwchgynllun a oedd yn cyd-fynd â'r cais cynllunio amlinellol yn ceisio cadw llawer o'r nodweddion tirwedd presennol a oedd yn cyfrannu at gymeriad tirwedd yr ardal, ac roedd dyluniad seilwaith y safle a'r llwyfandiroedd datblygu yn ceisio osgoi nodweddion tirwedd o'r fath hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys nodweddion fel coetir planhigfa, brigiadau caregog ac ardaloedd o gorstir a gwlyptir. Roedd lleoliad yr Henebion Cofrestredig o fewn y safle yn ystyriaeth hefyd, ac integreiddiwyd llinellau rhyngwelededd rhwng y ddwy Heneb Gofrestredig yn uwchgynllun y safle.

4.4.8 Mae Polisi AMG 1 yn datgan y bydd y Cynllun Rheoli AHNE yn darparu "disgrifiad eglur a chytunedig o'r agweddau hynny sy'n rhan o'r cymeriad, ymddangosiad a gwerth hanesyddol arbennig sy'n cyfrannu at eu prydferthwch naturiol".

4.4.9 Mae Nodweddion a Rhinweddau Arbennig AHNE Ynys Môn fel y'u hamlinellwyd yn yr Adolygiad Cynllun Rheoli, wedi'u rhestru isod:

- Golygfeydd/Morluniau Eang;
- Heddwch a llonyddwch;
- Ynysoedd o amgylch Ynys Môn;
- Coedwigoedd Llydanddail;
- Rhostir Arfordirol Iseldir;
- Gwrychoedd ar Ochr y Ffordd yn Gyfoeth o Rywogaethau;
- Cynefinoedd Arfordirol a Gwlyptir Pwysig Ecolegol (gan gynnwys glannau creigiog, fflatiau llaid ac aberoedd, morfeydd heli, traethau a thwyni);
- Amgylchedd Adeiledig gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth ac Adeiladau Rhestredig;
- Archaeoleg a Henebion/ Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol;
- Cymunedau Amaethyddol/Arfordirol Gwledig;
- Yr Iaith Gymraeg;
- Ansawdd Pridd, Aer a Dŵr;
- Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus;
- Tir a Dŵr Hygyrch.

[9] JLDP Gwynedd a Môn – para 6.5.9

4.4.10 Yn achos Parc Cybi, nid yw'r un o'r nodweddion arbennig a restrwyd uchod, ac eithrio Henebion, yn ymddangos ar y safle, a rhagdybir bod y mater o gadw nodweddion arbennig wedi cael ei ystyried fel rhan o'r cais cynllunio amlinellol ac a ganiatawyd yn flaenorol 19C842A/EIA.

4.4.11 Mae'r Adolygiad Cynllun Rheoli AHNE yn datgan (yn 3.11) "Nid oes unrhyw ddatblygiad mawr wedi'i leoli yn yr AHNE, ond mae gorsaf bŵer niwclear; cyn waith toddi alwminiwm, a Chanolfan Hyfforddi i'r Llu Awyr wedi'u lleoli ar gyrion y dynodiad". Mae'r Adolygiad Cynllun Rheoli AHNE yn ddyddiedig 2015-2020, a chynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus terfynol ynglŷn â'r Cynllun Rheoli rhwng Ebrill a Mehefin 2015.[10] Ni wyddys pam na chyfeirir yn benodol at ddatblygiad Parc Cybi yn yr adolygiad oherwydd erbyn i'r ymgynghoriad terfynol gael ei gynnal, roedd cynllun Parc Cybi wedi'i gymeradwyo ac roedd seilwaith wedi'i adeiladu.

4.4.12 Mae Adran 4 yr Adolygiad Cynllun Rheoli o'r enw "Egwyddorion Arweiniol a Grymoedd er Newid" (para 4.10) yn cydnabod bod yr AHNE "yn wynebu pwysau datblygu mawr yn ystod y cyfnod cynllunio hwn ac ymhellach i'r dyfodol".

4.4.13 Mae Polisi CCC 3.1[11] yn datgan "Caiff yr holl gynigion datblygu o fewn a hyd at 2 cilometr gerllaw yr AHNE asesiad trylwyr i leihau datblygiad anaddas a allai ddifrodi rhinweddau a chymeriad arbennig yr AHNE neu uniondeb safleoedd dynodedig Ewropeaidd."

4.4.14 Mae Polisi CCC 3.2 yn datgan "Bydd disgwyl i bob datblygiad newydd ac ailddatblygiad o fewn a hyd at 2 cilometr gerllaw yr AHNE fabwysiadu'r safon uchaf o ddyluniad, deunyddiau a thirlunio i sicrhau eu bod yn ategu rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE. Cefnogir cynigion sydd wedi'u seilio ar egwyddorion datblygu cynaliadwy ac sydd ar raddfa a natur briodol."

4.4.15 Dywed Nodyn Cyfarwyddyd 30[12] "Dylai cadw'r harddwch naturiol a'r dreftadaeth gael eu hintegreiddio gyda'r angen lleol am les economaidd a chymdeithasol, gan sicrhau drwy hynny fod y cynllunio, y rheoli a'r datblygu pellach ar AHNE yr ynys yn cael eu seilio ar egwyddorion datblygu cynaliadwy."

4.4.16 Rhagdybir felly, wrth roi caniatâd cynllunio amlinellol, fod y dyluniad ar gyfer Parc Cybi wedi pasio'r profion polisi hyn ac ystyriwyd ei fod yn coleddu egwyddorion datblygu cynaliadwy, ac y cafodd ei ganiatáu ar ôl hynny felly. Mae hyn, yn ei dro, wedi cael effaith arwyddocaol ar ddylanwadu ar yr amodau tirwedd gwaelodlin, a bydd yn ei dro yn cael dylanwad sylweddol wrth asesu effeithiau posibl y datblygiad arfaethedig ar gymeriad tirwedd y safle a'r ardal o amgylch.

---

[10] Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn – Adolygiad Cynllun Rheoli 2015 – 2020 – para 1.5
[11] Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn – Adolygiad Cynllun Rheoli 2015 – 2020 – Polisïau CCC 3.1 a 3.2
[12] IACC – Canllaw Cynllunio Atodol: Canllawiau Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig
Nodyn Cyfarwyddyd 30: Datblygu yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol – Mabwysiadwyd ar 11 Rhagfyr

*Henebion Cofrestredig*

4.4.17 Mae tair Heneb Gofrestredig o fewn yr ardal astudiaeth 1 cilometr, sef:

1. Maen Hir Tŷ Mawr (AN012);
2. Siambr Gladdu Trefignath (AN012); a
3. Grŵp Cytiau Trearddur (AN092)

4.4.18 Mae Grŵp Cytiau Trearddur yn gylch cytiau amgaeedig wedi'i leoli oddeutu 1 cilometr i'r de ddwyrain o Barc Cybi ac o fewn Parc Gwledig Bae Trearddur, sef parc carafannau gerllaw'r Lasinwen ar ymyl ddwyreiniol anheddiad Bae Trearddur. Mae'r Heneb Gofrestredig yn dyddio'n ôl i'r ganrif 1af CC ac mae wedi'i lleoli ar fryncyn sy'n wynebu'r dwyrain; credir bod ganddi gysylltiadau posibl â grŵp cytiau tebyg ar lan bellaf y Lasinwen (penrhyn Ynys Leurad) (AN035), ac mae'n dynodi dwy ochr llwybr y fferi o bosibl. Am y rhesymau hyn, mae'n ymddangos yn annhebygol fod yna unrhyw gysylltiadau gyda Maen Hir Tŷ Mawr na Siambr Gladdu Trefignath.

4.4.19 Y ddwy Heneb Gofrestredig fwyaf amlwg yw Maen Hir Tŷ Mawr a Siambr Gladdu Trefignath sydd o fewn Ystad Ddiwydiannol a Pharth Menter Parc Cybi; mae'r ddwy Heneb Gofrestredig yn henebion ag iddynt arwyddocâd cenedlaethol. Mae hanes a statws y ddwy heneb wedi'u dogfennu'n dda mewn amryw o adroddiadau, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth (HIA) a baratowyd gan Archaeology Wales[13] ar gyfer y gwesty arfaethedig (Premier Inn) ym Mharc Cybi. Mae'r adroddiad yn ystyried effaith y gwesty arfaethedig (sydd bellach wedi'i adeiladu ac yn gweithredu fel y Premier Inn, Caergybi) ar y ddwy Heneb Gofrestredig a'u lleoliad.

4.4.20 Mae Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Llywodraeth Cymru, Mai 2017) a Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru/Cadw Mai 2017) yn ystyried pwysigrwydd lleoliad a'r ffordd y mae asedau hanesyddol yn cael eu deall, eu gwerthfawrogi a'u profi, ac yn cyfrannu at eu harwyddocâd. *"Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn annog awdurdodau cynllunio lleol i ystyried lleoliadau asedau hanesyddol wrth baratoi cynlluniau datblygu a phan fyddant yn penderfynu ar geisiadau cynllunio."*[14]

4.4.21 Roedd yr uwchgynllun a baratowyd ar gyfer Parc Cybi a'r cais amlinellol a ganiatawyd yn ystyried lleoliad y ddwy Heneb Gofrestredig, ac fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod rhyngwelededd rhwng y ddwy heneb yn cael ei gadw fel rhan o'r fframwaith datblygu ehangach. Er y cydymffurfiwyd â hyn, mae datblygiad Parc Cybi wedi effeithio ar leoliad y ddwy Heneb Gofrestredig. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth (HIA)[15] a baratowyd ar gyfer datblygiad arfaethedig Premier Inn yn datgan:

> *"Bu cryn ddatblygu o fewn ardal y cynllun dros yr ychydig ddegawdau diwethaf, ac yn nodedig, adeiladu Gwibffordd yr A55 Gogledd Cymru ar hyn ffin ddwyreiniol y safle a'r datblygiad masnachol o amgylch, sy'n cynnwys Parth Menter Parc Cybi. Mae'r effeithiau*

[13] Archaeology Wales: Proposed Hotel at Parc Cybi Enterprise Zone, Holyhead, Anglesey – Rhif yr Adroddiad 1589
[14] Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru – Ffeithiau Cyflym 3
[15] Archaeology Wales: Proposed Hotel at Parc Cybi Enterprise Zone, Holyhead, Anglesey – Rif yr Adroddiad 1589 – Tud 1

*cronnol ar leoliadau Maen Hir Tŷ Mawr a Siambr Gladdu Trefignath yn creu effaith gyffredinol niweidiol fawr o leiaf."*

### *Nodweddion Ffisegol, Canfyddiadol a Diwylliannol a Chymdeithasol*

4.4.22 Mae elfennau tirwedd yn cyfuno ac yn cyfrannu at gymeriad tirwedd safle penodol neu ardal ehangach. Gallant fod yn gyfuniad o nodweddion a grynhoir yn Tabl 4.2. Mae rhain i gyd yn cyfrannu at yr ardaloedd cymeriad tirwedd a ddisgrifiwyd uchod.

### *Gwerth a Sensitifrwydd*

4.4.23 Mae'r Canllawiau ar gyfer Asesu'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol yn dweud *"Fel rhan o'r disgrifiad tirwedd gwaelodlin, dylid pennu gwerth y dirwedd a allai gael ei heffeithio".*[16] Mae'r canllawiau'n dweud hefyd (ym mharagraff 5.24) *"Yn aml, ond nid bob amser, bydd astudiaeth ddesg o ddogfennau perthnasol yn darparu gwybodaeth yn ymwneud â'r sail ar gyfer dynodi. Ond weithiau, ar raddfa fwy lleol astudiaeth ardal LVIA, mae'n bosibl y gallai gwerth tirwedd yr ardal benodol honno fod yn wahanol i hynny a awgrymwyd gan y dynodiad ffurfiol".*

4.4.24 Sefydlwyd bod safle'r datblygiad arfaethedig yn gorwedd o fewn AHNE Ynys Môn, sef dynodiad tirwedd cenedlaethol sy'n ddynodiad arfordirol yn bennaf, yn cwmpasu'r rhan fwyaf o forlin Ynys Môn er mwyn gwarchod apêl ac amrywiaeth esthetig tirwedd a chynefinoedd arfordirol yr ynys. Mae safleoedd mewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol yn gysylltiedig â thirwedd gwerth uchel fel arfer.

4.4.25 Nid ystyrir bod safle'r datblygiad arfaethedig yn dirwedd o werth uchel, er gwaetha'r dynodiad cenedlaethol. Mae'r statws AHNE yn canolbwyntio ar ardaloedd arfordirol golygfaol iawn, ac mae'r safle'n gorwedd dros 1 cilometr o'r arfordir. Hefyd, mae'r safle gerllaw coridor ffordd yr A55, yn agos at hen Waith Alwminiwm Môn ac o fewn safle cyflogaeth Parc Cybi sydd o werth isel, yn ôl LANDMAP. Fodd bynnag, mae rhan orllewinol y safle o fewn ardal gyfagos ac ehangach o lawer Ynys Gybi (LANDMAP YNSMN-VS-007) sydd wedi'i gwerthuso gan LANDMAP fel ardal o werth uchel. Mae Plot 9 wedi'i leoli o fewn cyd-destun y dirwedd newidiol hon sy'n datblygu tuag at ddefnydd tir mwy diwydiannol a chymeriad tirwedd drefol. Gyda Phlot 9 wedi'i ddatblygu'n rhannol, ystyrir bod y safle ei hun ar ardal uniongyrchol o'i amgylch o werth a sensitifrwydd isel, gyda thirwedd o werth uchel yn uniongyrchol i'r de a'r gorllewin. Mae tirwedd gyfagos Trearddur fel y'i diffiniwyd gan LANDMAP wedi'i dosbarthu fel tirwedd o werth canolig.

[16] GLVIA 3 – Guidelines for Landscape and Visual Impact Assessment – Trydydd Argraffiad para 5.19

**Tabl 4.2 – Elfennau Tirwedd**

| | | |
|---|---|---|
| **Nodweddion Ffisegol** | **Aneddiadau a'r Amgylchedd Adeiledig** | • Mae'r safle wedi'i leoli o fewn Plot 9 sydd wedi'i ddatblygu'n rhannol fel cyfleuster storio HGV (2021) ym mhen deheuol pellaf safle cyflogaeth a Pharth Menter ehangach Parc Cybi; ceir mynediad iddo oddi ar y brif ffordd gyswllt trwy gyffordd cylchfan fach. Mae datblygu diweddar yn y parth cyflogaeth cyn cynnwys arhosfan tryciau Roadking, Premier Inn Caergybi ac Is-orsaf Drydan.<br>• Mae ardal breswyl gogledd Trearddur oddeutu 150 metr i'r de orllewin o'r safle ar dir uwch, a cheir golygon agored clir o'r safle.<br>• Mae ffordd gyswllt Parc Cybi yn ffurfio ffin ogledd ddwyreiniol y safle gyda brigiad creigiog a llystyfiant prysgwydd ar hyd y ffin hon.<br>• Mae hen ffordd Lôn Trefignath, sydd bellach yn llwybr troed/llwybr beicio a rennir, yn dod i ben ar ddiwedd y ffordd gyswllt ac yn parhau i'r de ddwyrain ac yn cysylltu â Lôn Towyn Capel, sydd yn ei dro yn rhedeg i'r gorllewin tuag at anheddiad Trearddur. |
| | **Tirffurf, Daeareg a Hydroleg** | • Mae topograffi'r safle yn cynnwys llwyfandir uchel gyda brigiadau creigiog a chytrefi prysgwydd eithin. Mae rhyw 50% o Blot 9 wedi'i wastatáu a'i wynebu ag asffalt ar gyfer y cyfleuster storio HGV.<br>• Mae'r llwyfandir mewn safle uwch oddeutu 16.0 – 16.5 metr o gymharu â safle Roadking. Mae rhai ardaloedd o Blot 9 wedi'u llenwi ag agregau ychwanegol er mwyn ffurfio'r cyfleuster storio HGV,<br>• Ardal Agwedd Ddaearegol LANDMAP YNSMN-GL-083 Iseldir bryniau a dyffrynnoedd gyda brigiadau wyneb caregog o greigwely metamorffig<br>• Ceir lagŵn gwanhau dŵr wyneb yn agos at y fynedfa a ffin ddeheuol y safle. |
| | **Gorchudd tir, llystyfiant a defnydd tir** | • Ar hyn o bryd mae'r safle wedi'i osod i laswelltir wedi'i led-wella yn bennaf, a borir gan ddefaid yn achlysurol. Ceir ardaloedd o ferddwr/corstir sy'n awgrymu bod draeniad y safle yn wael;<br>• Mae rhai planhigfeydd/gwrychoedd coetir llydanddail, gyda choed masarn yn bennaf, wedi'u plannu ar hyd ffin ddeheuol a gorllewinol y safle.<br>• Brigiadau caregog ar hyd ffin ogledd ddwyreiniol y safle gyda phrysgwydd eithin. |
| **Nodweddion Canfyddiadol** | **Graddfa a Golwg** | • Mae'r safle yn wastad gydag agwedd agored tuag at y gorllewin a'r gogledd orllewin yn gyffredinol. Mae Plot 9 yn hen safle maes glas a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel tir pori garw sydd bellach wedi'i ddatblygu'n rhannol fel cyfleuster storio HGV. |
| | **Ansawdd Golygfaol;** | • Golygfeydd agored tua'r gorllewin-gogledd-orllewin tuag at ardal breswyl gogledd Trearddur, a golygfeydd pellach tuag at Kingsland a thu hwnt, tuag at fryniau Penrhosfeilw.<br>• Dim difriwyr gweledol arwyddocaol. Dim golygfeydd tuag at waith Alwminiwm Môn yn sgil y topograffi a phlanhigfeydd coetir rhyngddynt. Mae Siambr Gladdu Trefignath (Heneb Gofrestredig) wedi'i chuddio hefyd gan blanhigfa coetir a gwrych.<br>• Mae'r ansawdd golygfaol yn lleihau gydag golygfeydd o ffin ogleddol y safle ar draws Parc Cybi tuag at Premier Inn, yr Is-orsaf Drydan a Pharc Tryciau Roadking o rannau uwch o'r safle. |
| | **Llonyddwch** | • Ni cheir llonyddwch ar y safle am ei fod yn agos at yr A55, Ystad Ddiwydiannol Penrhos a'i leoliad o fewn safle cyflogaeth Parc Cybi; |
| | **Nodweddion Anghydnaws/Ymwthgar** | • Dim nodweddion ymwthgar mawr. |
| | **Ffynonellau golau yn y nos** | • Ardal breswyl gyfagos gogledd Trearddur |
| **Nodweddion Diwylliannol a Chymdeithasol** | **Nodweddion ac Elfennau Hanesyddol** | • Nid yw Henebion Cofrestredig Maen Hir Tŷ Mawr a Siambr Gladdu Trefignath yn weledol o'r safle |
| | **Rhyngweithio rhwng Pobl** | • Mae safle cyflogaeth Parc Cybi wedi gweld newid sylweddol mewn defnydd tir ers dechrau 2000 ac mae mewn cyflwr cyson o newid, o dirwedd wledig olygfaol i ystâd ddiwydiannol eang a safle cyflogaeth;<br>• Mae'r ffordd gyswllt a Lôn Trefignath yn llwybrau poblogaidd ar gyfer amwynder cyffredinol ac fe'u defnyddir gan drigolion Kingsland a Chaergybi a'r gymuned leol;<br>• Nid oes unrhyw Hawliau Tramwy Cyhoeddus eraill yn croesi'r safle nac yn rhedeg yn ymyl y safle. |

## 4.5 Gwaelodlin Gweledol

4.5.1 Mae amodau gweledol gwaelodlin y safle a'r ardal amgylchynol wedi'u sefydlu trwy gyfuniad o astudiaethau desg ac arsylwadau yn y maes. Cynhaliwyd ymweliadau maes yn Ebrill 2021 ar ôl cwblhau'r cyfleuster storio HGV.

4.5.2 Mae'r Parth Gwelededd Damcaniaethol (ZTV) yn dangos, yn glir ac yn ddealladwy, y berthynas agos rhwng topograffi'r safle a'r ardal amgylchynol. Mae'r safle ar lwyfandir uwch (oddeutu 16.0 – 18 metr uwchlaw lefel y môr) ac mae iddo agwedd agored.

4.5.3 Mae ychydig o nodweddion arwyddocaol o waith dyn sy'n weledol o'r safle. Ardal breswyl gogledd Trearddur yw'r prif ddylanwad gweledol o waith dyn. Heblaw am hyn, mae'r ardal o gymeriad gwledig ac agored yn gyffredinol, o ansawdd olygfaol dda gydag ychydig o ddifriwyr gweledol.

4.5.4 O ffin ogleddol y safle, gellir ystyried y datblygiadau newydd ym Mharc Cybi fel difriwyr gweledol hefyd, ond nid yw'r golygfeydd o'r rhain i'w gweld yn rhwydd o du mewn i brif ardal y safle.

4.5.5 Mae'r ZTV (cyfeirier at Atodiad A - Ffigur 8) yn dangos bod nifer o leoliadau lle mae'n debygol y bydd rhyngwelededd rhwng y cynllun arfaethedig a derbynyddion gweledol. Crynhoir y rhain isod:

- Rhannau gogleddol a dwyreiniol Parc Cybi;
- Parc Manwerthu Caergybi ac Ystad Ddiwydiannol Penrhos;
- Gwaith Alwminiwm Môn;
- Lôn Trefignath ac eiddo Tyddyn Uchaf;
- Parc Gwledig Bae Trearddur (Safle Carafannau);
- Trearddur Mews;
- Tir amaethyddol i'r de;
- Ardal breswyl gogledd Trearddur gan gynnwys eiddo ar Benrhyn Geiriol;
- Cwrs Golff Caergybi; ac,
- Aneddiadau a thir mynediad agored i'r gogledd orllewin o amgylch Penrhosfeilw.

*Sensitifrwydd Derbynyddion Gweledol*

4.5.6 Dynodwyd sensitifrwydd uchel, canolig neu isel i'r derbynyddion gweledol posibl a ddynodwyd. Ystyrir yn gyffredinol mai'r derbynyddion gweledol sy'n fwyaf agored i newid yw[17]:

- Preswylwyr sydd gartref;
- Pobl sy'n ymwneud â hamdden awyr agored, gan gynnwys defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus;
- Ymwelwyr ag asedau treftadaeth lle mae golygfeydd o'r amgylchoedd yn gyfrannwr pwysig at y profiad.

[17] GLVIA 3 – Guidelines for Landscape and Visual Impact Assessment – Third Edition para 6.33

4.5.7 Mae'r Parth Gweledbedd Damcaniaethol (ZTV) yn dangos bod derbynyddion gweledol (pobl) posibl i'r agweddau gogleddol, dwyreiniol, deheuol a gorllewinol, fel a ganlyn:

| **Tabl 4.3 - Derbynyddion Gweledol Posibl** | | **Sensitifrwydd y Derbynnydd Gweledol** |
|---|---|---|
| **Gogledd** | • Ystad Ddiwydiannol Parc Cybi | Isel |
| | • Gweithwyr yn yr Is-orsaf Drydan | Isel |
| | • Defnyddwyr yr A55 a Chyffordd 2 | Isel |
| | • Parc Manwerthu Caergybi ac Ystad Ddiwydiannol Penrhos | Isel |
| **Dwyrain** | • Pedestriaid, cerddwyr a beicwyr ar hyd Lôn Trefignath | Uchel |
| | • Ymwelwyr â Siambr Gladdu Trefignath a lleoliad yr Heneb Restredig | Uchel |
| | • Eiddo preswyl Tyddyn Uchaf | Uchel |
| | • Gweithwyr yn Alwminiwm Môn | Isel |
| **De** | • Pedestriaid, cerddwyr a beicwyr ar hyd Lôn Trefignath | Uchel |
| | • Eiddo preswyl yn Trearddur Mews | Uchel |
| | • Parc Gwledig Bae Trearddur (Safle Carafannau) | Canolig |
| | • Eiddo Preswyl Hunters Chase (gogledd Trearddur) | Uchel |
| **Gorllewin** | • Eiddo preswyl Penrhyn Geiriol (gogledd Trearddur) | Uchel |
| | • Pobl yn mwynhau gweithgarwch hamdden ar Gwrs Golff Caergybi | Uchel |

4.5.8 Lluniwyd yr ZTV gan ddefnyddio model tir daear digidol. Nid yw hwn yn cofnodi nodweddion arwyneb fel elfennau o waith dyn (e.e. ffyrdd neu adeiladau), waliau, gwrychoedd neu ardaloedd o blanhigfa coetir. Mae ond yn darparu dynodiad o beth fyddai'r ZTV pe na bai unrhyw nodweddion arwyneb fel y rheiny a ddisgrifiwyd. Er mwyn pennu dylanwad y nodweddion arwyneb hyn, cynhaliwyd ymweliadau safle i wirio'r ZTV ac i lunio barn ynglŷn ag o ble fyddai'r safle a'r Cerbydau Nwyddau Trwm yn debygol o fod yn fwyaf gweledol, a chan ba dderbynnydd gweledol posibl. Yn ogystal ag arsylwadau maes, tynnwyd ffotograffau o nifer o leoliadau, ac fe'u cyflwynir fel golygfannau dangosol yn Atodiad B.

*Golygfannau Dangosol*

4.5.9 Mae golygfannau dangosol wedi'u cofnodi fel ffotograffau panoramig o nifer o leoliadau i ddangos yr amodau gwaelodlin gweledol, a chyflwynir y rhain yn Atodiad B. Ceir crynodeb o ddisgrifiadau o'r golygfannau yn Nhabl 4.4.

**Tabl 4.4 Plot 9 – Golygfannau Dangosol LVA**

| **Golygfan Ddangosol** | **Teitl yr Olygfan** | **Disgrifiad o'r Olygfan** |
|---|---|---|
| Golygfan – A | Golygfa tua'r de ddwyrain o'r fynedfa i Barc Cybi | Golygfa tua'r de ddwyrain ar hyd y ffordd gyswllt gyda'r Premier Inn i'w weld i'r chwith a Roadking i'r dde. Mae Plot 9 y tu ôl i safle Roadking ar lwyfandir uwch y tu ôl i'r darren garegog sydd i'w gweld ar y gorwel y tu ôl i do adeilad Roadking. Ceir llwybr beicio/troedffordd ar y ffordd gyswllt ar hyd yr ymyl gogleddol sydd wedi'i oleuo â cholofnau goleuadau, sef nodwedd amlwg sy'n cyfrannu at yr elfennau o waith dyn yn yr olygfa. Nid yw Henebion Cofrestredig Maen Hir Tŷ Mawr a Siambr Gladdu Trefignath i'w gweld yn rhwydd o'r olygfan hon. Mae'r ffordd gyswllt yn codi yn y pellter canol tuag at ran de ddwyreiniol Parc Cybi tuag at y fynedfa i Blot 9, gyda golygfeydd o Eryri yn y pellter wedi'u cyfyngu gan blanhigfa coed collddail ar y nenlinell. |
| Golygfan – B1 | Golygfa tua'r de ddwyrain ar hyd Ffordd Gyswllt Parc Cybi o'r fynedfa i Premier Inn | Golygfa tua'r de ddwyrain ar hyd y ffordd gyswllt gyda'r is-orsaf ynni i'w gweld i'r chwith tuag at Siambr Gladdu Trefignath nad yw'n hawdd i'w gweld i'r chwith o Lôn Trefignath. Nid yw Plot 9 yn weledol o'r lleoliad hwn, ond mae'r safle wedi'i leoli y tu ôl i'r darren garegog y tu ôl i safle Roadking sydd i'w weld ar y dde. Byddai'r fynedfa arfaethedig i Blot 9 oddi ar y ffordd gyswllt y tu hwnt i'r gylchfan wedi'i lleoli'n agos at y colofnau goleuadau sy'n ymddangos bellaf i'r dde yn yr olygfa, ac o flaen y llinell goed sy'n diffinio'r gorwel. |
| Golygfan – B2 | Golygfa tua'r de ddwyrain o Faen Hir Tŷ Mawr (Heneb Gofrestredig) | Golygfa i'r de ar draws Parc Cybi tuag at Blot 9 gyda chyfleusterau lles y safle storio HGV dros dro yn weledol ar y gorwel. Mae Plot 9 yn ymestyn i'r dde o'r cyfleusterau lles hyn ac yn gorwedd y tu ôl i'r brigiad caregog sydd i'w weld uwchlaw Arhosfan Tryciau Roadking. Mae rhai o eiddo preswyl Penrhyn Geiriol ac adeiladau Cwrs Golff Caergybi yn weledol ar y gorwel uwchlaw'r parc tryciau. |
| Golygfan – C | Golygfa tua'r de o'r Is-Orsaf Drydan | Golygfa tua'r de o Lôn Trefignath gerllaw'r fynedfa i'r Is-orsaf Drydan tuag at Blot 9. Mae'r cyfleusterau lles ar gyfer y parc HGV dros dro yn weledol ar y gorwel, gyda'r ardal sy'n weddill o Blot 9 yn gorwedd y tu ôl i'r brigiad caregog. |
| Golygfan – D | Golygfa tua'r de orllewin o safle Siambr Gladdu Trefignath (Heneb Gofrestredig) | Golygfa i'r gorllewin tuag at safle Plot 9 gyda'r cyfleuster storio HGV dros dro yn weledol yn y pellter canol. Mae ardal breswyl gogledd Trearddur (ar Benrhyn Geiriol) a Chlwb Golff Caergybi yn weledol ar y gorwel y tu ôl i wrych sydd yn llygad y gwynt sy'n rhedeg ar hyd ffin ogleddol Lôn Trefignath. Mae datblygiad Roadking yn weledol i'r dde yn yr olygfa gyda chlwstwr o Gerbydau Nwyddau Trwm yn weledol yn yr ardal parcio lorïau. Mae ardal breswyl Kingsland yn gorwedd y tu hwnt i Roadking. |
| Golygfan – E | Golygfa tua'r gogledd orllewin o Lôn Trefignath | Golygfa o gât cae ar hyd Lôn Trefignath tuag at gyfleuster storio HGV dros dro Plot 9 a thu hwnt i Fynydd Twr. |
| Golygfan – F | Golygfa tua'r gogledd ddwyrain ar draws Parc Cybi o Benrhyn Geiriol | Ceir golygfeydd eang i'r gogledd a'r gogledd ddwyrain ar draws ystâd ddiwydiannol Parc Cybi o ardal breswyl uwch gogledd Trearddur ar draws Plot 9 a'r parc HGV dros dro. Mae'r olygfa o'r lleoliad hwn o ansawdd olygfaol da yn gyffredinol, ond gyda rhai difriwyr fel y parc tryciau, Alwminiwm Môn a Pharc Manwerthu Caergybi. |
| Golygfan – G1 | Golygfa tua'r dwyrain-de-ddwyrain o'r B4545 (gyferbyn â'r gilfan) | Golygfa tuag at Blot 9 o'r B4545 gyda Pharc Tryciau Roadking yn weledol i'r chwith yn y llun a thu hwnt tuag at hen waith Alwminiwm Môn, gyda'r corn simnai yn dirnod nodedig. Mae Plot 9 yn gorwedd y tu ôl i'r brigiad caregog yng nghanol y llun, gyda'r pwynt uchaf gerllaw Penrhyn Geiriol ar oddeutu 28 metr AOD. |
| Golygfan – G2 | Golygfa tua'r dwyrain-de-ddwyrain o'r B4545 (gyferbyn â'r fynedfa i'r cwrs golff) | Golygfan debyg i G1 gyda Pharc Tryciau Roadking yn weledol i'r chwith yn y llun, wedi'i sgrinio'n rhannol a thu hwnt tuag at hen waith Alwminiwm Môn, gyda'r corn simnai yn dirnod nodedig. Mae Plot 9 yn gorwedd y tu ôl i'r brigiad caregog yng nghanol y llun, gyda'r pwynt uchaf gerllaw Penrhyn Geiriol ar oddeutu 28 metr AOD. |
| Golygfan – H | Golygfa tua'r dwyrain-de-ddwyrain o Mill Road (wrth y fynedfa i Benrhyn Owen) | Golygfa tuag at Barc Cybi o Mill Road i'r gogledd orllewin o'r safle ar draws iseldir. Mae'r clwb pêl-droed a'r ganolfan hamdden gyfagos yn weledol yng nghanol y llun, gyda Premier Inn Caergybi i'r chwith a melin nodedig Kingsland ar y gorwel. |
| Golygfan – I1 | Golygfa tua'r de ddwyrain o Fynydd Celyn Bach | Golygfeydd yn y pellter tuag at Blot 9 o olygfan oddeutu 2 cilometr i ffwrdd ar dir mynediad agored. |
| Golygfan – I2 | Golygfa tua'r de ddwyrain o Fynydd Celyn Mawr | Golygfeydd yn y pellter tuag at Blot 9 o olygfan oddeutu 2.5 cilometr i ffwrdd o hawl dramwy gyhoeddus. |
| Golygfannau J1 a J2 | Golygfa i'r dwyrain o Park Road | Golygfeydd yn y pellter tuag at Blot 9 o olygfannau oddeutu 2.8 cilometr o'r ffordd gyhoeddus. |

# 5 Y DATBLYGIAD ARFAETHEDIG

## 5.1 Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig

5.1.1 Y datblygiad arfaethedig yw Safle Rheoli Ffiniau (BCP) ar Blot 9 Parc Cybi i wasanaethu Porthladd Caergybi. Bydd yn cynnwys cyfleusterau archwilio ar gyfer cynnyrch bwytadwy ac anfwytadwy, anifeiliaid bach, anifeiliaid mawr a cheffylau. Crynhoir disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig isod ac fe'i disgrifir hefyd ym Mhennod 2 yr Adroddiad ar yr Amgylchedd (BCP21-002-00-00).

5.1.2 Bydd y fynedfa i'r datblygiad arfaethedig drwy gylchfan presennol ar ddiwedd y ffordd gyswllt bresennol sy'n gwasanaethu ystâd ddiwydiannol Parc Cybi. Bydd y fynedfa i'r safle'n cael ei diogelu gan rwystrau wrth fynd i mewn ac allan, a bydd ffens ddiogelwch o amgylch perimedr yr ardal weithredol.

5.1.3 Bydd y cyfleusterau archwilio yn cael eu cadw mewn adeiladau storio mawr, a byddai uchderau'r adeiladau wedi'u cyfyngu, wedi'u rhannu yn dri pharth, 33m AOD, 28m AOD a 23m AOD, gyda'r terfyn uchaf fwy neu lai'n gyfwerth ag uchder 15m. Hefyd, bydd nifer o adeiladau llai ar gyfer stablau, swyddfeydd a chyfleusterau lles, a chyfleustodau eraill gan gynnwys is-orsaf.

5.1.4 Bydd angen i'r datblygiad arfaethedig ddarparu ar gyfer archwilio cerbydau nwyddau sy'n dod i mewn. Trefnir hyn fel cyfres o lonydd nofio, sef lonydd y bydd cerbydau yn aros ynddynt cyn cael cyfarwyddyd ar ble i fynd o fewn y safle, a llwybrau cylchdroi mewnol i'r cyfleusterau archwilio.

5.1.5 Ceir brigiad caregog ar ymyl ddwyreiniol y safle ac mae iddo werth ecolegol a gwerth amwynder. Bydd y rhan fwyaf o'r ardal hon yn cael ei chadw a'i gwarchod. Bydd pwll gwanhau a phant yng nghornel deheuol y safle, ynghyd â phwll gwanhau sydd yno'n barod.

5.1.6 Bydd ardal o goed wedi'u plannu'n ddwys a fydd yn 10 metr o led man lleiaf ar hyd rhan o'r ffin ddeheuol ac ar hyd y ffin orllewinol. Bydd y blanhigfa coetir yn cynnwys rhywogaethau collddail a bythwyrdd cymysg.

5.1.7 Mae bwnd tirluniedig presennol yn diffinio ffin ddeheuol a gorllewinol y safle. Bydd hwn yn cael ei gadw a'i wella, gyda choed ychwanegol yn cael eu plannu.

## 5.2 Lliniaru Tirwedd

5.2.1 Mae'r cynigion dylunio ar gyfer y Safle Rheoli Ffiniau wedi'u paratoi gan ddefnyddio set o gyfyngiadau y bydd angen cydymffurfio â nhw yng ngham dylunio manwl y prosiect. Mae'r rhain i bob pwrpas yn ffurfio rhagdybiaethau a wnaed yng nghamau cynnar y prosiect. Yn ystod cam datblygu'r cyfyngiadau dylunio, mae'r tîm dylunio wedi nodi rhai effeithiau niweidiol posibl ar amwynder gweledol trigolion lleol, yn enwedig i'r de a'r de orllewin o'r datblygiad arfaethedig ar Blot 9.

5.2.2 Er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol posibl hyn, mae mesurau lliniaru tirwedd wedi'u nodi a'u hymgorffori yng nghynigion y cynllun. Oherwydd safle uwch llawer o'r eiddo uwchlaw'r datblygiad Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig, mae'n anodd cyflawni lliniaru uniongyrchol a sgrinio golygfeydd yn y tymor byr. Fodd bynnag, o gael amser i ymsefydlu, gall lliniaru tirwedd fod yn effeithiol a darparu llawer o fuddion eraill fel gwella bioamrywiaeth a chyfrannu at leihau carbon.

5.2.3 Mae'r mesurau lliniaru tirwedd canlynol wedi'u hymgorffori yng nghynigion y cynllun.

1. Bydd y brigiad caregog a'r prysgwydd ar hyd ffin ogledd ddwyreiniol y safle yn cael eu cadw a'u gwarchod.
2. Bydd y bwnd presennol sydd wedi'i dirlunio ar hyd ffin ddeheuol a gorllewinol y safle yn cael ei gadw a'i warchod, a bydd mwy o waith plannu'n cael ei wneud i atgyfnerthu'r gwaith plannu presennol. Bydd y gwaith plannu newydd yn cael ei gynnal a'i reoli am gyfnod o 15 mlynedd man lleiaf er mwyn sicrhau ei fod yn ymsefydlu'n llwyddiannus, ac i gynnal ei dwf a'i gryfder parhaus.
3. Bydd byffer plannu 10 metr o led man lleiaf yn ychwanegol at y bwnd tirluniedig presennol yn cael ei sicrhau fel rhan o'r cynigion datblygu ar hyd y ffiniau deheuol a gorllewinol. Bydd y blanhigfa yn cynnwys cymysgedd o rywogaethau bythwyrdd a chollddail, a phan fydd wedi ymsefydlu, bydd yn darparu sgrinio trwy gydol y flwyddyn. Bydd hyn hefyd yn cael ei gynnal a'i reoli am gyfnod o 15 mlynedd man lleiaf er mwyn sicrhau ei fod yn ymsefydlu'n llwyddiannus, ac i gynnal ei dwf a'i gryfder parhaus. Ar ôl y cyfnod cynnal 15 mlynedd, bydd gwaith yn parhau i reoli'r planhigfeydd dros oes y Safle Rheoli Ffiniau.
4. Mae Asesiad Lliwiau Amgylcheddol (ECA) (cyfeirier at Atodiad C(BCP21-002-04-03)) wedi'i gynnal yn gyfochrog â'r arfarniad tirwedd a gweledol hwn, ac mae wedi nodi'r lliwiau mwyaf cyffredin ar y dirwedd o amgylch y safle. Mae adeiladau'r Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig yn debygol o fod yn gasgliad o adeiladau mawr i ganolig eu maint a fyddai'n anodd eu cuddliwio, ac sy'n debygol o fod o natur iwtilitaraidd. Felly, yr ymagwedd fwyaf priodol a ystyriwyd at drin lliwiau fyddai lleihau edrychiad gweledol yr adeiladau trwy ddewis paletau lliw yn ofalus. Cyflwynir y rhain fel argymhellion ar gyfer toeau'r adeiladau a'r triniaethau ffasâd yn yr Asesiad Lliwiau Amgylcheddol. Dylid nodi y bydd angen i'r lliwiau a gynigir gael eu rhoi ar gydrannau amrywiol yr holl adeiladau yn ystod y camau dylunio manwl. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i gydrannau allanol eraill y datblygiad fel ffensys diogelwch, ffensys acwstig, adeiladau ategol, colofnau goleuadau a chelfi stryd eraill.

5.2.4 Bydd effeithiau posibl y datblygiad arfaethedig yn cael eu hystyried gyda'r mesurau lliniaru tirwedd fydd ar waith yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r prosiect.

# 6 ARFARNIAD TIRWEDD A GWELEDOL

## 6.1 Yn Gyffredinol

6.1.1 Mae'r arfarniad tirwedd a gweledol o'r datblygiad arfaethedig wedi'i gynnal gyda'r rhagdybiaeth bod y datblygiad arfaethedig o fewn y cyfyngiadau eang a ddisgrifiwyd yn adran 5 a gyda'r mesurau lliniaru tirwedd ar waith.

6.1.2 Mae datblygiad rhannol Plot 9 ar ddechrau 2021, ardal o ryw 5ha o fewn parth cyflogaeth ehangach Parc Cybi, yn ddirywiad pellach i'r ardal cymeriad tirwedd sydd eisoes wedi gweld newid graddol, yn sgil esblygiad ystâd ddiwydiannol Parc Cybi a ddatblygwyd gyntaf yn 2008.

6.1.3 Bydd y Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig yn mynnu datblygu Plot 9 yn gyfan gwbl, gan gynnwys y cyfleuster storio HGV presennol a dros dro. Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys nifer o adeiladau o amrywiol uchderau, ardaloedd llawr caled ar gyfer cerbydau HGV a pharcio ceir a gofod cylchdroi. Bydd gan y Safle Rheoli Ffiniau fesurau diogelwch amrywiol hefyd, gan gynnwys ffin safle diogel, a bydd wedi'i oleuo yn y nos at ddibenion gweithredu. Bydd byffer tirwedd 10m o leiaf ar hyd y ffiniau gorllewinol a deheuol.

## 6.2 Arfarniad Tirwedd

6.2.1 Mae'r disgrifiad o'r amodau tirwedd gwaelodlin wedi ystyried sensitifrwydd cyffredinol y safle, ac wedi pennu bod y safle o fewn Ystad Ddiwydiannol Parc Cybi. Mae'r ystad ddiwydiannol hon yn ei thro o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ehangach Ynys Môn. Er bod yr AHNE yn parhau'n ddynodiad tirwedd pwysig yn genedlaethol, ystyrir nad yw'r safle a'r ardal o'i amgylch yn cynnwys unrhyw rai o'r nodweddion pwysig ac arbennig y mae'r statws AHNE yn ceisio'u gwarchod a'u gwella, ac eithrio'r ddwy Heneb Restredig nad yw'r datblygiad arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.

6.2.2 Disgrifir cymeriad tirwedd rhan ddwyreiniol y safle a'r ardal i'r dwyrain (yn Ardal Agwedd Weledol a Synhwyraidd LANDMAP YNSMNV084) fel cymeriad o werth isel yn gyffredinol. Mae dylanwadau hen Ffatri Alwminiwm Môn, coridor ffordd yr A55, Ystad Ddiwydiannol Penrhos a Pharc Manwerthu Caergybi, a Pharc Cybi yn fwyaf diweddar, wedi cyfuno i greu dylanwad mawr o waith dyn dros yr ardal hon o'r AHNE, ac nid oes modd ei wrthdroi. Hefyd, mae datblygu Plot 9 yn rhannol fel cyfleuster storio HGV dros dro wedi gweld cyflwyno elfennau ychwanegol o waith dyn i'r ardal hon sydd wedi arwain at erydu cymeriad y dirwedd ymhellach ar lefel leoledig.

6.2.3 Mae hanner gorllewinol y safle o fewn Ardal Agwedd Weledol a Synhwyraidd LANDMAP YNSMN-VS-007 Ynys Gybi ac ystyrir ei fod o werth uchel. Mae'r ardal hon yn helaeth ac yn cwmpasu ardal eang i'r gogledd a'r gorllewin, yn ymestyn o ardal breswyl Kingsland i'r gorllewin tuag at Benrhosfeilw a'r arfordir ac Abraham's Bosom. Gwerthfawrogir yr ardal hon yn gyffredinol fel ardal sydd heb ei difetha lle ceir ymdeimlad 'morol a natur agored'. Disgrifir y duedd ar gyfer yr ardal fel un sy'n dirywio oherwydd bod gwaith datblygu'n llechfeddiannu ar y cyrion ac i'r de ddwyrain o dai ar ymyl Caergybi ac ystâd ddiwydiannol newydd, y tybir mai

cyfeiriad at Barc Cybi ydyw. Dylid nodi y cynhaliwyd yr arolwg LANDMAP o'r ardal hon yn Ionawr 2007, ac agorodd cam cyntaf Parc Cybi i fusnes yn 2008.

6.2.4 Sefydlwyd gan LANDMAP o arolwg a gynhaliwyd yn 2007 fod yr ardal hon yn dirywio yn sgil gwaith datblygu yn llechfeddiannu. Ers 2007, mae Parc Cybi wedi gweld datblygiad y Roadking Truck Stop (2015), Premier Inn Caergybi (2019), a'r cyfleuster storio HGV dros dro (2021). Bydd y datblygiad arfaethedig yn achosi niwed pellach i gymeriad tirwedd lleol y safle a'r ardal o amgylch, ond nid ystyrir bod hyn yn arwyddocaol oherwydd lleoliad y safle o fewn ystad ddiwydiannol Parc Cybi.

6.2.5 Nid yw datblygiad arfaethedig y Safle Rheoli Ffiniau yn debygol o achosi niwed pellach i leoliad neu ryngwelededd y ddwy Heneb Gofrestredig, sef Maen Hir Tŷ Mawr a Siambr Gladdu Trefignath. Nid effeithir ar fesurau a ddyluniwyd yn flaenorol fel rhan o uwchgynllun Parc Cybi i liniaru yn erbyn yr effaith ar y ddwy heneb.

6.2.6 Ystyrir nad yw datblygiad arfaethedig y Safle Rheoli Ffiniau yn debygol o gael effaith niweidiol arwyddocaol ar yr AHNE ehangach. Mae'r datblygiad wedi'i leoli i mewn i'r tir ac mae'n eistedd o fewn cyd-destun tir diwydiannol a chyflogaeth presennol. Ystyrir felly ei bod yn annhebygol y bydd yn creu niwed pellach i'r AHNE a ddynodwyd yn bennaf i warchod parth arfordirol Ynys Môn.

## 6.3 Arfarniad Gweledol

6.3.1 Mae'r arfarniad gweledol wedi ystyried effeithiau gweledol posibl y datblygiad ar olygfeydd penodol ac ar yr amwynder gweledol cyffredinol a brofir gan bobl. O ganlyniad i'r arfarniad, mae mesurau lliniaru a ddisgrifiwyd yn adran 5.2.3 wedi'u hymgorffori yn y cynigion datblygu i integreiddio'r datblygiad arfaethedig yn y dirwedd leol. Mae'r Asesiad Lliwiau Amgylcheddol (ECA) wedi nodi ystod o liwiau hefyd i'w rhoi ar ffasadau adeiladau a thoeon yr adeiladau i'w hystyried yn y cam dylunio manwl o'r prosiect er mwyn cynorthwyo integreiddio i'r dirwedd ehangach o dderbynyddion gweledol pellach i ffwrdd.

6.3.2 Bydd y datblygiad arfaethedig yn achosi effeithiau gweledol niweidiol i nifer gyfyngedig o bobl sy'n byw yn rhai o'r eiddo yng ngogledd Trearddur sy'n edrych dros y safle, ac yn arbennig yr eiddo ar Benrhyn Geiriol a'r rhai ar ochr ddwyreiniol Hunters Chase. Mae'r golygfeydd (cyfeirier at Olygfan Ddangosol F) o'r eiddo hyn o safle uwch sy'n amrywio rhwng oddeutu 6-10 metr uwchlaw safle'r datblygiad arfaethedig gan ddibynnu ar union leoliad yr eiddo. Mae anheddiad ehangach Bae Trearddur, ac eithrio'r eiddo a ddisgrifiwyd uchod, yn annhebygol o weld unrhyw newid mewn amwynder gweledol o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig yn ystod cyfnod adeiladu na chyfnod gweithredu'r datblygiad.

6.3.3 Mae nifer gyfyngedig o eiddo yr effeithir arnynt fwyaf gan y datblygiad arfaethedig yn debygol iawn o brofi rhywfaint o newid yn sgil graddfa adeiladau'r Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig a fydd yn dod yn nodwedd lethol yn yr olygfa. Mae'r eiddo hyn eisoes yn gweld y parc HGV dros dro ym Mhlot 9, ac mae adeiladau'r Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig yn debygol o guddio golygfeydd o'r datblygiad presennol hwn ynghyd ag ardaloedd o Barc Manwerthu Caergybi,

hen waith Alwminiwm Môn, ac o bosibl golygfeydd pellach i ffwrdd o'r môr ac arfordir gogledd Ynys Môn.

6.3.4 Bydd golygfeydd agored hefyd o'r eiddo uwch i'r de orllewin o elfennau lefel is y datblygiad arfaethedig, fel y casgliad o adeiladau llai, ardaloedd parcio ceir a'r lonydd nofio. Bydd yr ardaloedd hyn wedi'u goleuo yn y nos hefyd oherwydd gofynion gweithredu yn ystod y nos, ac er ei bod yn debygol y bydd y goleuadau yn gyfeiriadol, mae'n anochel y bydd golygfeydd o'r datblygiad arfaethedig wedi'u goleuo yn y nos. Bydd mesurau lliniaru tirwedd yn lleihau'n gynyddol yr effeithiau niweidiol hyn a welir o'r de orllewin ac yn ffurfio sgrin effeithiol yn ystod cyfnod gweithredu'r datblygiad.

6.3.5 Nid yw'r safle i'w weld yn rhwydd o ardaloedd o fewn yr AHNE ehangach nac o ardaloedd preswyl cyfagos eraill Kingsland i'r gorllewin a'r gogledd orllewin, ac o'r datblygiad arall ym Mharc Cybi i'r gogledd. Mae'n debygol y bydd rhai golygfeydd o bell o'r safle o fannau ffafriol fel Mynydd Twr, ond mae'r rhain mor bell i ffwrdd (oddeutu 4.5 cilometr) nad ystyrir eu bod yn debygol o fod yn arwyddocaol.

6.3.6 Mae'n debygol y bydd cipolygon i'w gweld o doeon adeiladau'r Safle Rheoli Ffiniau o rai hawliau tramwy cyhoeddus a'r rhwydwaith ffyrdd lleol, i'r gogledd orllewin, ond nid yw'r rhain yn debygol o fod yn arwyddocaol oherwydd y pellter a'r nodweddion rhyngddynt, fel topograffi a nodweddion eraill o ansawdd gweledol isel, fel Arhosfan Tryciau Roadking.

6.3.7 Bydd y datblygiad arfaethedig yn arwain at ddatblygu pellach ar Blot 9, a feddiannir ar hyn o bryd gan y safle HGV dros dro. Mae Plot 9 wedi'i leoli o fewn Parc Cybi ac AHNE Ynys Môn. Nid ystyrir y bydd datblygu Plot 9 ymhellach yn cael effeithiau gweledol niweidiol ar yr AHNE ehangach a'r nodweddion tirwedd lleol sy'n cyfrannu at werth golygfaol y safle a'r ardal o amgylch.

6.3.8 Yng nghyfnod adeiladu'r datblygiad arfaethedig, mae'n debygol y bydd rhywfaint o darfu i dderbynyddion gweledol cyfagos yn cael ei achosi gan symudiadau cyfarpar a pheiriannau. Hefyd, mae'n debygol y bydd tarfu yn sgil sŵn a achosir gan weithgarwch adeiladu. Mae'r cyfnod adeiladu'n debygol o gymryd hyd at 8 mis yn dilyn dyluniad manwl a chaffael contractwr.

6.3.9 Yng nghyfnod gweithredu'r prosiect, mae'n debygol y bydd lleihad cynyddol yn yr effeithiau gweledol niweidiol wrth i fesurau lliniaru'r dirwedd ymsefydlu a dechrau aeddfedu. Erbyn blwyddyn 15, byddai'r gwaith plannu wedi sefydlu'n llwyr a byddai'n ffurfio sgrin effeithiol trwy gydol y flwyddyn o amgylch ffiniau gorllewinol a deheuol y datblygiad arfaethedig. Bydd y gwaith plannu lliniaru, ynghyd â'r lliwiau a ddewisir ar gyfer ffasadau'r adeiladau a'r toeon, yn cyfuno i integreiddio'r datblygiad arfaethedig yn Ystad Ddiwydiannol Parc Cybi i'r gogledd a'r lleoliad tirwedd ehangach.

# 7 CRYNODEB A CHASGLIADAU

7.1.1 Mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn/Anglesey sy'n categoreiddio'r datblygiad fel un sydd mewn ardal sensitif.

7.1.2 Mae datblygiad arfaethedig y Safle Rheoli Ffiniau wedi'i leoli ar Blot 9, parsel o dir sy'n mesur oddeutu 6.4ha o fewn safle cyflogaeth Parc Cybi, Caergybi. Mae Parc Cybi o fewn yr AHNE ac wedi'i leoli i mewn i'r tir o'r arfordir ac yn agos at goridor ffordd yr A55 ac ardal ddiwydiannol ddeheuol Caergybi. Ar ôl cwblhau Parc Cybi yn 2008, bu'r safle yn segur am flynyddoedd lawer hyd nes y datblygwyd Premier Inn Caergybi a Roadking rhwng 2015 a 2019.

7.1.3 Ar ddechrau 2021, roedd Plot 9 wedi'i ddatblygu'n rhannol (oddeutu hanner) fel cyfleuster storio HGV dros dro, gyda'r hanner arall yn destun archwiliad archaeolegol ac wedi'i adfer ar ôl hynny. Bydd datblygiad arfaethedig y Safle Rheoli Ffiniau yn cwmpasu'r safle cyfan; bydd yn gasgliad o adeiladau ac wedi'i orchuddio â llawer caled. Mae mesurau lliniaru tirwedd ar ffurf byffer 10 metr o leiaf o dirwedd wedi'i phlannu â choed collddail a bythwyrdd cymysg wedi'u hymgorffori yng nghynigion y cynllun.

7.1.4 Mae'r datblygiad arfaethedig o gymeriad a natur debyg i'r defnyddiau tir cyfagos a'r datblygiad parhaus ym Mharc Cybi. Mae tirwedd yr ystâd ddiwydiannol mewn cyflwr o drawsnewid o safle maes glas yn bennaf o fewn AHNE Ynys Môn, i ystâd ddiwydiannol yn darparu cyfleoedd cyflogaeth ym Mharth Menter Parc Cybi. Bydd datblygiad arfaethedig y Safle Rheoli Ffiniau ar Blot 9 yn elfen arall o'r newid hwnnw a bydd yn disodli'r cyfleuster storio HGV presennol a dros dro.

7.1.5 Nid ystyrir y bydd datblygiad arfaethedig y Safle Rheoli Ffiniau yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar ardal sensitif yr AHNE nac ar gymeriad tirwedd y safle a'r ardal amgylchynol yn bennaf oherwydd ei leoliad o fewn ystâd ddiwydiannol Parc Cybi. Ystyrir bod cymeriad tirwedd yr ardal yn dirywio yn sgil llechfeddiannu gan waith datblygu ystad ddiwydiannol Parc Cybi a de Caergybi. Dylanwadir yn drwm arno hefyd gan safle eang hen Waith Alwminiwm Môn sy'n nodwedd lethol i'r dwyrain. Yn gyffredinol, ystyrir bod gwerth tirwedd yr ardal yn isel, ac er y byddai'r datblygiad arfaethedig yn achosi rhywfaint o niwed pellach i gymeriad tirwedd lleol yr ardal, nid ystyrir ei fod yn arwyddocaol yn nhermau'r dirwedd.

7.1.6 Ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn creu unrhyw niwed pellach i'r lleoliad na'r rhyngweledd rhwng y ddwy Heneb Gofrestredig, sef Siambr Gladdu Trefignath a Maen Hir Tŷ Mawr sydd wedi'u lleoli'n agos at y datblygiad arfaethedig ac o fewn Ystad Ddiwydiannol Parc Cybi.

7.1.7 Nid ystyrir y bydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar amwynder cyffredinol pobl yn gyffredinol nac o fewn y dirwedd ehangach neu anheddiad cyfagos Trearddur. Bydd nifer gyfyngedig o eiddo preswyl yn dioddef rhai effeithiau gweledol niweidiol. Fodd bynnag, o'i ystyried yng nghyd-destun golygfeydd presennol ar draws Parc Cybi o eiddo preifat ac nid o ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd, nid ystyrir bod hyn yn arwyddocaol yn nhermau'r dirwedd na thermau gweledol.

7.1.8 Mae’r ardal tirwedd sydd wedi’i chwmpasu yn yr Arfarniad Tirwedd a Gweledol wedi cynnwys y safle ei hun a’r dirwedd ehangach o’i amgylch y gallai’r datblygiad arfaethedig ddylanwadu arni mewn modd arwyddocaol (fel y cyfeirir ato ym mharagraff 3.1.5) a’r ardal tirwedd ehangach sy’n cynnwys AHNE Ynys Môn a ddosbarthwyd yn y rheoliadau AEA fel ardal sensitif. Ystyrir na fydd y datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau arwyddocaol ar yr ardal sensitif na niwed pellach i nodweddion arbennig AHNE Ynys Môn oherwydd bod lleoliad y datblygiad arfaethedig o fewn safle cyflogaeth dynodedig ystad ddiwydiannol Parc Cybi.

# ATODIAD A

## Ffigurau

# ATODIAD B

# Golygfannau Dangosol

## ATODIAD C

## Asesiad Lliwiau Amgylcheddol